
ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

18 Gorffennaf, 2025

TEITL: Diweddariad ar y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) ar gyfer Gogledd Cymru – Cytundeb Cyflawni

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC,
Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar y cynnydd gyda pharatoi Cytundeb Cyflawni (DA) ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol (SDP) ar gyfer Gogledd Cymru, yn ogystal â thynnu sylw at rai o'r materion allweddol y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i gychwyn y cynllun.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR


- 2.1. Nodi'r sefyllfa gyda'r SDP a'r materion a amlygwyd i'w datrys yn y dyfodol.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Sicrhau bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gwbl ymwybodol o'r cam a gyrhaeddwyd gyda'r SDP, a'r materion allweddol y mae angen eu datrys er mwyn dechrau'r cynllun.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 (Rheoliadau SDP) yn rhannu'r broses o gynhyrchu SDP yn chwe cham allweddol. Mae'r camau hyn a'r gofynion manwl ar gyfer pob cam wedi'u nodi mewn llawlyfr SDP drafft – nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi nac ymgynghori arno'n ffurfiol eto, ond mae swyddogion mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi cael cyfle i adolygu'r llawlyfr drafft a'i ofynion.



Proses y Cynllun Datblygu Strategol (o'r Llawlyfr SDP drafft)

- 4.2. Cam cyntaf y broses yw datblygu Cytundeb Cyflawni. Yn y bôn, mae hwn yn gynllun o sut y bydd y cynllun yn cael ei gynhyrchu, pwy fydd yn cymryd rhan, sut, a phryd, a pha mor hir y bydd y cynllun yn ei gymryd i'w gynhyrchu. Mae'n cynnwys dwy brif ran: Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol sy'n nodi pwy neu ba grwpiau, cyrff neu sefydliadau y bydd y CBC yn ceisio ymgysylltu â hwy yn y broses, y dulliau a ddefnyddir i ymgynghori, a'r cyfleoedd a'r ffyrdd y gall partion sydd â diddordeb wneud sylwadau. Mae'r ail ran yn cynnwys amserlen fanwl sy'n rhannu pob cam allweddol yn dasgau mwy manwl, ac yn gosod amserlen ar gyfer pa mor hir y bydd pob tasg, cam a'r broses gyffredinol yn ei gymryd i'w gwblhau.
- 4.3. Unwaith y bydd Cytundeb Cyflawni wedi'i ddrafftio, dylai'r CBC anelu at ymgynghori'n anffurfiol ar ei gynnwys, er gwaethaf y ffaith ei bod yn ddogfen weithdrefnol, ac nad yw'n cynnwys unrhyw weledigaeth, amcanion na chyfeiriad polisi ar hyn o bryd. Nid oes gofyniad statudol felly i ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni, ond ystyrir ei bod yn arfer dda i sicrhau bod y Cytundeb Cyflawni drafft ar gael i bartion â diddordeb edrych arno a rhoi sylwadau arno.
- 4.4. Ar ôl ymgynghori, ac ystyried unrhyw sylwadau perthnasol, mae'n rhaid i'r CBC fabwysiadu'r Cytundeb Cyflawni drwy benderfyniad ffurfiol, cyn ei gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru i'w ystyried a'i gytuno gan Weinidogion Cymru. Hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn llofnodi'r Cytundeb Cyflawni, ni all y CBC ddechrau datblygu'r SDP ei hun, er y gall rhywfaint o waith ar gasglu tystiolaeth gefndirol ddigwydd.
- 4.5. Yn ogystal â dangos i Weinidogion Cymru fod y Cytundeb Cyflawni yn rhesymol o ran pwy y bydd yn ymgynghori â hwy, sut a phryd, a'r amser y bydd yn ei gymryd i gynhyrchu'r cynllun, fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni mae'n rhaid i'r CBC hefyd asesu ac egluro'r adnoddau y bydd eu hangen i ymgymryd â'r SDP a'r gost gyffredinol o wneud hynny. Ymhellach i hyn, mae'n rhaid iddo nodi'n glir sut y bydd yn darparu'r cyllid angenrheidiol i dalu'r costau hynny dros oes y broses o gynhyrchu'r SDP. Hyd nes y bydd y cyllid llawn wedi'i adnabod, ni all y CBC gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Weinidogion Cymru yn ffurfiol i'w arwyddo ac felly ni all ddechrau'r SDP.

5. CYNNYDD GYDA'R SDP

- 5.1. Mae Cytundeb Cyflawni drafft wedi'i gynhyrchu ar gyfer SDP Gogledd Cymru. Mae hwn wedi'i anfon at swyddogion yn Nhîm Cynllun Datblygu Llywodraeth Cymru ac ym mhob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol priodol yng Ngogledd Cymru am eu sylwadau a'u hadborth. Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel atodiad 1.
- 5.2. Mae'r Cytundeb Cyflawni hefyd wedi cael ei adolygu a'i drafod yn anffurfiol gan Is-bwyllgor Cynllunio Strategol y CBC i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r broses ac yn rhan lawn ohoni, a chael adborth cyn dechrau ymgynghori'n anffurfiol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y bwriad yw ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni yn ystod mis Gorffennaf ac Awst, ac yna adrodd ar unrhyw adborth a dderbyniwyd i'r CBC yn ei gyfarfod ar 19^{eg} Medi 2025.

6. PRIF BENAWDAU'R CYTUNDEB CYFLAWNI

- 6.1. Mae sawl mater allweddol i'w hamlygu i'r CBC o'r Cytundeb Cyflawni drafft:
- Mae'r rhaglen ddrafft yn rhagweld dyddiad cychwyn ar gyfer llunio'r cynllun yn chwarter cyntaf 2026, gyda dyddiad mabwysiadu dilynol yn chwarter cyntaf 2031, felly amserlen o bum mlynedd i gyd ar gyfer creu'r cynllun;
 - Cyfnod cynllun 25 mlynedd o 2026 – 2051;
 - Bydd sail dystiolaeth yr SDP yn tynnu'n sylweddol ar adolygiad o'r dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu i gefnogi Adolygiadau presennol o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI);
 - Y ffocws ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol fydd dibynnu ar ddulliau rhithwir o ystyried graddfa ddaearyddol y Rhanbarth a sgôp strategol y SDP, ac mae'n bosib na fydd y rhain o reidrwydd yn adnabod materion cynllunio lleol y byddai'n well ymdrin â nhw mewn CDLI neu CDLI 'lites'. Nid yw hyn yn golygu na ellir cydlynu sesiynau galw heibio lleol er enghraifft, ond bydd hyn yn dibynnu ar ddull cydweithredol gyda phob ACLI;
 - Aseswyd fod y gost gyffredinol o gynhyrchu'r SDP yn £3.276m a bydd angen i'r broses a ddaw i sefydlu cyllideb y CBC adnabod sut y gellir cyllidebu ar gyfer y costau hyn dros oes pum mlynedd y broses o lunio'r cynllun;
 - Bydd ymgynghoriad anffurfiol â rhan-ddeiliaid ar y Cytundeb Cyflawni yn cael ei gynnal yn ystod mis Gorffennaf ac Awst a bydd unrhyw sylwadau a wneir yn cael eu bwydo'n ôl i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol a'r CBC ym mis Medi;
 - Mae cyflwyno'r cytundeb cyflawni yn ffurfiol i Weinidogion Cymru yn dibynnu ar allu dangos cyllideb ddigonol i dalu costau llawn yr SDP.

7. PRIF FATERION/RISGIAU'N CODI GYDA DECHRAU'R SDP

- 7.1. Wrth edrych ymlaen at y cyfnod ar ôl i Weinidogion Cymru arwyddo'r Cytundeb Cyflawni, mae rhai heriau allweddol i'w datrys er mwyn gosod y cyd-destun cywir ar gyfer dechrau'r gwaith ar y SDP ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys:
- **Adnoddau** – ystyried y dull o adeiladu Tîm Cynllunio mewnol o fewn y CBC a'r sail dros wneud hynny e.e. recriwtio parhaol neu gydweithio/secondio;
 - **Ymgynghorwyr** – bydd angen defnyddio ymgynghorwyr arbenigol i ddarparu cefnogaeth i rannau allweddol o'r broses SDP, i ddechrau drwy gynorthwyo'r CBC i adolygu a choladu'r sail dystiolaeth y mae pob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol partner ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi'i datblygu i gefnogi gwaith y CDLI;
 - **Gweledigaeth** – Tasg allweddol yw datblygu gweledigaeth hirdymor briodol ac integredig ar gyfer yr SDP, sy'n cyd-fynd â phwrpas cyffredinol y CBC, a'r meysydd polisi eraill o fewn

ei gylch gwaith. Mae gwaith cynnar yn cael ei wneud i drefnu cyfres o weithdai gweledigaeth yn yr Hydref gydag Aelodau a swyddogion cynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd a rhan-ddeiliaid allweddol. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu am hyn;

- **Graddfa twf** – Bydd yn bwysig sicrhau bod y SDP wirioneddol yn gynllun strategol nad yw'n ceisio delio â materion sy'n fwy priodol i gael sylw ar lefel leol trwy CDLI unigol. Rôl bwysig i'r SDP fydd gosod lefelau twf rhanbarthol (cyflogaeth, tai) a dosbarthu'r rhain i lawr i lefel yr awdurdod lleol unigol. Bydd angen iddo hefyd ddiffinio beth yw ystyr 'strategol' o ran maint y safle datblygu e.e. isafswm maint safle cyflogaeth neu o leiaf 500 o gartrefi;
- **Strategaeth Ofodol** – Bydd angen i'r SDP adnabod strategaeth ofodol lefel uchel sy'n tynnu sylw at yr aneddeleoedd a'r lleoliadau allweddol sy'n debygol o fod yn ffocws ar gyfer twf rhanbarthol dros oes y cynllun. Nid yw hyn yn golygu nad yw aneddeleoedd eraill yn bwysig, dim ond y byddant yn bwysicach ar lefel leol, CDLI;
- **Cyllid** – Mae dyletswydd statudol y CBC i gynhyrchu SDP yn cynnwys talu'r costau llawn o wneud hynny. Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft yn cynnwys asesiad o'r costau hyn ac mae adran 8 yr adroddiad hwn isod, yn asesu gallu cyllideb gyfredol y SDP ar gyfer 2025-26 i gwrdd â'r costau hyn, os na ddisgwyllir iddynt newid wrth symud ymlaen;
- **Integreiddio Polisi** – Un egwyddor graidd y tu ôl i'r ffordd y mae'r CBC yn gweithio yw sicrhau bod lefel uchel o integreiddio polisi, ac mae'r SDP yn rhoi cyfle i gysylltu â'r gwaith a wnaed eisoes i greu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) i adnabod goblygiadau defnydd tir y rhaglen isadeiledd trafnidiaeth, yn ogystal â llywio cyfeiriad hynny yn y dyfodol. Bydd Llesiant Economaidd hefyd wrth wraidd strategaeth yr SDP, gan alluogi twf economaidd rhanbarthol, swyddi a buddsoddiad i barhau.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 7.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau rhagor o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. O ran cyllideb bresennol y CBC ar gyfer 2025-26 sy'n ymwneud â'r SDP, byddai angen cynyddu'r gyllideb hon 50% o'r lefel bresennol bob blwyddyn, dros gyfnod cynhyrchu'r cynllun sef 2026-2031, i gwrdd â chostau llawn yr SDP. Bydd asesiad manylach yn cael ei gyflwyno i'r CBC ym mis Medi fel rhan o adroddiad pellach ar yr SDP.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

ATODIADAU:

Cytundeb Dosbarthu Drafft

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae cyllideb mewn lle ar gyfer datblygu'r SDP. Fel y nodwyd, mae'r penderfyniad a geisir yn un o sawl cam mewn proses hir a bydd swyddogion cyllid yn parhau i gefnogi swyddogion ac aelodau yn ôl yr angen.